

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

29 Mehefin 2016

Y bresennol: Y Cynghorwyr P Harries, ST Hudson, R Kilmister a P J Morgan, Mr A E Sangster a'r Cyngorydd A Wilcox.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10:00am – 12.10pm)

- 1. Penodi Cadeirydd**
PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd R Kilmister yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf.
- 2. Penodi Dirprwy Gadeirydd**
PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd AE Sangster yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn nesaf.
- 3. Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cyngorydd ML Evans, Ms C Gwyther a Mrs M Thomas.
- 4. Datgelu buddiant**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.
- 5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.
PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016.
- 6. Cyflwyniad gan Fforwm Arfordir Sir Benfro**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ceri Crichton o Fforwm Arfordir Sir Benfro a roddodd gyflwyniad am waith y Fforwm. Eglurodd fod y Fforwm wedi'i sefydlu yn 2000 ac wrth ei wraidd roedd datblygu'r arfordir yn gynaliadwy. Roedd yn creu, rheoli a darparu prosiectau morol ar gyfer y sectorau cymunedol, cyhoeddus a phreifat ynghyd â'r trydydd sector yn Sir Benfro. Roedd cyllid Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi dau brif brosiect – y Siarter Awyr Agored a'r Cod Morol, yn ogystal â darparu digwyddiadau hyfforddi a rheoli gwrthdaro a mynediad mewn gwahanol leoliadau ar draws y sir. Roedd y gwaith hwn ar hyn o bryd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid yn St Justinian ynghylch sut orau i reoli'r cyfleusterau a'r ardal yn y dyfodol. Soniwyd hefyd am ymchwil tair blynedd i ddarparu cyfleoedd hamdden awyr agored anturus i bobl anabl yn Sir Benfro, y rhaglen Caldey Buoyage a'r ap Cod Morol ar gyfer dyfeisiau symudol.



Gofynnodd yr Aelodau am nifer o'r prosiectau hyn, yn enwedig y canlyniadau a ddisgwylir o'r gweithgareddau hamdden awyr agored anturus ar gyfer pobl anabl. Darparwyd copïau o rai o gyhoeddiadau'r Fforwm, a gofynnodd yr Aelodau hefyd am ddarpariaeth iaith Gymraeg y Fforwm yn hyn o beth, ac a fyddai defnyddio mwy ar yr iaith yn creu mwy o ymdeimlad o le. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y cynhelir trafodaethau gyda'r Fforwm yn y dyfodol agos gan fod Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn gymwys hefyd i'r gweithgareddau hynny yr oedd yn eu hariannu.

NODWYD.

7. Prosiect 0343 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy: Pwyth Mewn Pryd/Stitch in Time - Diweddariad

Esboniodd y Cydgysylltydd Rhywogaethau Goresgynol Estron fod y prosiect yn ymwneud â cheisio rheoli planhigion goresgynol estron yng Nghwm Gwaun ar sail dalgylchoedd. Y tair rhywogaeth a dargedir oedd Clymog Siapan, Jac y Neidiwr, a Rhododendron. Roedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro wedi dweud fod y tair rhywogaeth yn flaenoriaeth i'w rheoli.

Dewiswyd dalgylch Cwm Gwaun ar gyfer y prosiect gan ei fod yn cynnwys nifer o safleoedd o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig ac oherwydd ei fod yn bwysig ar gyfer sawl rhywogaeth. Mae rhywogaethau goresgynol estron yn aml yn lledaenu ar hyd cyrsiau dŵr ac felly roedd dalgylchoedd, a rhannau o ddalgylchoedd, yn raddfa briodol i weithio, gyda thriniaeth yn digwydd o gopa'r uned draenio tuag i lawr ac o'r tu allan i mewn.

Roedd y tymor triniaeth yn gyffredinol yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi ar gyfer y tair rhywogaeth a enwyd. Bu gwirfoddolwyr ymroddedig o gymorth mawr gyda'r arolwg ac roedd aelodau o'r cyhoedd hefyd wedi rhoi gwybod pan fyddent wedi gweld y rhywogaethau. Hyd yma, roedd y rhywogaethau targed wedi'u cofnodi ar tua 120 o safleoedd yn nalgylch Cwm Gwaun, sy'n cwmpasu tua 27 hectar. Roedd tua 55% o'r ardal hon yn cael ei thrin.

Yn ogystal â chymryd rhan yn yr arolwg, roedd gwirfoddolwyr hefyd wedi helpu gyda'r gwaith rheoli. Roedd tasgluoedd wedi bod wrthi'n diwreiddio planhigion Jac y Neidiwr cyn i'r podiau hadau aeddfedu, ac wedi clirio llystyfiant ger planhigion Clymog Siapan er mwyn ei gwneud yn haws i'w trin yn broffesiynol. Hefyd, roedd pedwar gwirfoddolwr wedi'i ariannu yn 2015 i hyfforddi i chwistrellu. Cafwyd cydweithrediad nifer o grwpiau gwirfoddol gan gynnwys Cymdeithas Llandudoch, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro, Cymdeithas Pysgotwyr Nanhyfer, yn ogystal â Pharcmylau yr Awdurdod. Heb eu cymorth hwy ni fyddai'r prosiect wedi bod yn bosibl.



Y dasg barhaus fwyaf oedd clirio Rhododendron yn ardal Trecwn, lle'r oedd bron pob achos o'r rhywogaeth hon. Roedd llawer o waith wedi'i wneud yma yn ystod gaeaf 2015 pan oedd rheolwr y safle, staff APC a chontractwyr wedi torri a phrosesu tyfiant dwys ar y llethrau serth. Cafwyd arian gan Gyfoeth Naturiol Cymru i helpu i wneud hyn, a gwneir asesiad o effeithiolrwydd y gwaith y flwyddyn nesaf.

O ran gwerthuso'r prosiect hyd yma, roedd yn bosibl y byddai Jac y Neidiwr yn cael ei ddileu o'r dalgylch erbyn 2019. Roedd taflen wedi'i llunio yn sôn pam fod y rhywogaeth yn broblem a sut y gellid cael gwared â hi. Roedd addysgu pobl, yn enwedig tiffeddianwyr, am rywogaethau goresgynnol estron yn rhan bwysig o'r gwaith o gael gwared â hwy. O ran Clymog Siapan yng Nghwm Gwaun, chwistrellwyd chwynladdwr i'r coesyn yn ogystal ag ar y dail. Rhagwelwyd y byddai capasiti ymhlith staff y Parc Cenedlaethol a gwirfoddolwyr i reoli'r planhigyn a'i ddileu dros y tymor hir.

Daeth y Cydgysylltydd i ben drwy ddweud mai cael gwared ar y rhywogaethau targed oedd y nod. Os tybir fod ardal yn glir, byddai angen ei monitro rhag ofn i'r planhigyn dyfu eto neu fod yr ardal yn cael ei heintio o'r newydd. Roedd y gwirfoddolwyr yn allweddol i hyn, a byddai datblygu capasiti i fonitro yn etifediaeth werthfawr o'r prosiect. Roedd y llwyth gwaith yng Nghwm Gwaun yn debygol o leihau dros y blynnyddoedd, a byddai modd trin dalgylchoedd newydd. Felly, roedd yr Awdurdod wedi gwneud cais am grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect datblygu ym mis Mehefin 2016. Pe byddai'r cais yn llwyddiannus, byddai cais am ail rownd yn 2017 i'w gyflawni rhwng 2018 a 2023.

Roedd yr Aelodau'n fodlon â llwyddiant y prosiect hyd yma, ac roeddynt yn gobeithio y byddai'r cais am grant yn llwyddiannus, gan fod risg y byddai'r holl waith yn ofer pe byddai'r prosiect yn dod i ben. Hefyd, canmolwyd y gwirfoddolwyr yn fawr a gofynnodd yr Aelodau a ellid rhoi cyhoeddusrwydd i'w rôl mewn datganiad i'r wasg.

NODWYD.

- 8. Defnyddio Cyfraniadau Tai Fforddiadwy Adran 106 yn Sir Benfro**
Dywedodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc fod fframwaith Cyngor Sir Penfro ar gyfer defnyddio cyfraniadau tai fforddiadwy adran 106 wedi'i gyflwyno gerbron y Cabinet a'i gymeradwyo ganddo. Roedd copi o'r adroddiad ynghlwm er gwybodaeth yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau pam oedd y cyfraniad, mewn rhai achosion, fel y'i nodir mewn atodiad i'r adroddiad, yn fwy na'r hyn y gofynnwyd amdano. Gofynnwyd hefyd am eglurhad am ystyr trydydd paragraff yr adroddiad



Ile'r oedd, i bob golwg, negydd dwbl ynghylch gwario'r arian. Gan mai swyddogion Cyngor Sir Penfro oedd wedi paratoi'r adroddiad, cytunodd y swyddog i geisio atebion i'r cwestiynau hyn ac i anfon yr atebion at Aelodau'r Pwyllgor.

NODWYD.

9. Y Gofrestr Risgiau

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risgiau ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arwain yr Awdurdod pryd y nodwyd y cynnydd a'r newidiadau diweddaraf. Ni ychwanegwyd risgiau at y rhestr ac ni dynnwyd unrhyw risgiau oddi arni.

Nid oedd unrhyw risgiau wedi newid digon i newid y lefel risg, ond ar ôl trafodaeth yn ystod y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol yn ddiweddar, roedd y targed ar gyfer risg 20 (methiant TG) wedi'i ostwng i oren (canolig). Fodd bynnag, ers yr adroddiad diwethaf, roedd tri risg wedi cynyddu ychydig, a nodir gan y saeth am i lawr, ond nid yn ddigonol i newid lliw y risg.

Bu peth trafodaeth am ganlyniad y refferendwm yn ddiweddar ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd, a gofynnodd yr Aelodau a ellid ychwanegu risgiau newydd at y gofrestr ynghylch y goblygiadau i Gilrhedyn petai Coed Cymru/Tir Coed yn methu â chael cyllid Ewropeaidd ar gyfer eu cynlluniau ar gyfer y safle, yn ogystal â goblygiadau ehangach Brexit, nad oedd eto'n hysbys, ond a oedd yn cynnwys ansicrwydd am statws dynodiadau cadwraeth naur a oedd ar hyn o bryd yn cwmpasu rhannau helaeth o'r Parc.

PENDERFYNWYD ychwanegu risgiau at y Gofrestr Risgiau ynghylch dyfodol Cilirhedyn ac effeithiau ehangach Brexit.

10. Adroddiad am berfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ddiwedd Mai 2016

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y Rheolwr Busnes a Pherfformiad, cyn ei ymddeoliad, wedi addasu'r adroddiad perfformiad i ddilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016/17, y cytunodd yr Awdurdod arno ar 15 Mehefin. Roedd yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan llesiant, ynghyd ag adran arall yn darparu gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd yr adroddiad yn dangos canran y gwaith a gwblhawyd, ynghyd â statws Coch, Oren, Gwyrdd i bob cam gweithredu. Roedd y cynnydd ar bob cam gweithredu wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Nodwyd, yn anffodus, nad oedd llawer o ddata ar gael am mai dim ond ychydig wythnosau a aeth heibio ers dechrau'r flwyddyn ariannol. Felly, roedd nifer o eitemau gwag yn yr adroddiad, er bod gwaith eisoes wedi



dechrau yn y rhan fwyaf o achosion, ac roedd y cynnydd yn unol â'r disgwyl yr adeg hon o'r flwyddyn.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch pa mor dda yr oedd rhai o'r mesurau yn ffitio'r amcanion, er enghraifft pa un a oedd y rhai a restrir o dan Amcan 1 mewn gwirionedd yn fesurau ffyniant neu a ellid cynnwys data cyffredinol ar economi Sir Benfro, a hefyd pa un a ddylai'r anawsterau a wynebir gan rai prosiectau a oedd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod gael eu hadlewyrchu yn sgôr Coch, Oren, Gwyrdd yr Awdurdod.

Nodwyd y byddai'r adroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno gan y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfio newydd a fyddai'n dechrau gyda'r Awdurdod ar 1 Awst. Gobeithiai'r Aelodau y byddai newid, maes o law, i ffurf yr adroddiad i adlewyrchu eu pryderon.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.

11. Monitro'r Cyfryngau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddog Cyfathrebu a roddodd gyflwyniad ar broses yr Awdurdod o fonitro'r cyfryngau. Eglurodd fod 'monitro'r cyfryngau' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sut y mae'r Awdurdod yn monitro ac yn dadansoddi gwybodaeth am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod ar-lein (digidol), mewn print (papurau newydd a chylchgronau yn bennaf), ar y radio a'r teledu. Roedd monitro'r cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter yn bennaf) yn is-faes o ddarllediadau digidol a oedd yn cael ei fonitro. Roedd hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio gwasanaeth cwmni o'r enw Gorkana sy'n chwilio'r cyfryngau am eiriau allweddol a ddarperir gan swyddogion; roedd hyn yn costio tua £5,700 y flwyddyn. Yn ogystal, roedd staff yn monitro'r papurau newydd lleol yn ddyddiol. Gellid darparu adroddiadau wedyn i swyddogion am y sylw a roddwyd yn y cyfryngau i faterion penodol. Gellid rhannu'r erthyglau â staff gan fod yr Awdurdod wedi prynu trwyddedau oddi wrth yr Awdurdod Trwyddedu Papurau Newydd a'r Awdurdod Trwyddedu Hawlfreintiau i'w alluogi i wneud hynny.

Cofnodir hefyd naws yr erthygl – cadarnhaol, negyddol neu niwtral – ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu nifer isel o eitemau newyddion negyddol. Y cyfartaledd oedd 1.3 erthygl y mis, ond yn y 12 mis diwethaf aeth pedwar mis heibio heb erthyglau negyddol am yr Awdurdod.

Roedd swyddogion yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol, a oedd i bob pwrpas yn fath o hyrwyddo am ddim. Roedd yn cael ei fonitro'n fewnol drwy'r dydd gan gynnwys dros y penwythnosau, oherwydd gellid achosi difrod mawr mewn byr dro pe bai sylwadau negyddol yn cael eu gwneud a'r Awdurdod yn methu ag ymateb iddynt. Roedd nifer yr 'hoffi' a 'dim yn hoffi' hefyd yn cael eu dadansoddi.



Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyniad diddorol, a llongyfarchwyd y tîm am fod yn broffesiynol, yn weithgar ac yn effeithlon iawn.

NODWYD.

12. Y Flaenrglen Waith

Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, roedd y Prif Weithredwr wedi dosbarthu rhestr o eitemau y gellid eu hystyried dros y misoedd nesaf. Roedd hyn yn awgrymu y byddai adroddiadau yn y cyfarfod nesaf ar waith partneriaeth mewn perthynas â rheoli hamdden, gyda ffocws ar waith yng Nghastellmartin; adborth o'r arolwg Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac adolygiad o'r gwaith a wnaed gan yr Awdurdod mewn ysgolion.

CYTUNWYD y byddai'r eitemau uchod yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

13. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion i'w dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus eu hystyried.

